

Archwilio profiadau a dyheadau addysgol Plant a Phobl Ifanc sy'n derbyn Gofal (LACYF) yng Nghymru

Dr Dawn Mannay, Dr Eleanor Staples, Dr Sophie Hallett, Dr
Louise Roberts, Dr Alyson Rees, Dr Rhiannon Evans,
Darren Andrews

CASCADE Briff Ymchwil

Rhif 7: Mawrth 2016



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant





Archwilio profiadau a dyheadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (LACYP) yng Nghymru

Dr Dawn Mannay, Dr Eleanor Staples, Dr Sophie Hallett, Dr Louise Roberts, Dr Alyson Rees, Dr Rhiannon Evans, Darren Andrews

Y prif negeseuon o ran polisi ac ymarfer

- Roedd y bobl ifanc hŷn a'r rhai a oedd yn gadael gofal yn ein hastudiaeth yn teimlo'n aml nad oedd eu haddysg wedi cael blaenoriaeth ac nad oedd eu potensial wedi ei gydnabod gan ofalwyr, athrawon a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gweithio ac yn byw gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn eu hannog gyda'u haddysg, bod â disgwyliadau uchel ynghylch eu potensial addysgol, a chefnogi eu dyheadau.
- Credai nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fod cael cyfarfodydd ynghylch eu hamgylchiadau gofal yn ystod amser ysgol yn tynnu eu sylw, yn creu gofid, cywilydd ac yn golygu colli amser mewn gwersi. Pan fo modd, dylid cynnal cyfarfodydd y tu allan i oriau ysgol i ganiatáu i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ymdoddi heb deimlo eu bod wedi eu neilltuo neu'n wahanol, a'u galluogi i gymryd rhan lawn mewn addysg.
- Y tu hwnt i'r dosbarth, gwelwyd bod y gallu i faethu a gallu gofalwyr preswyl i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gyda gwaith ysgol yn hollbwysig. Mae angen i hyfforddiant gofalwyr bwysleisio pwysigrwydd addysg plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn ogystal â chyfleoedd i ofalwyr feithrin rhagor o sgiliau llythrennedd a rhifedd, a dylid blaenoriaethu cymwysterau addysgol.
- Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch newid ysgol mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn ein hastudiaeth, roedd y syniad o ddechrau o'r newydd yn well gan rai o'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal, ond roedd eraill yn dymuno aros yn eu hysgol bresennol er mwyn cynnal cyfeillgarwch, a allai fod yn ffynhonnell gref o gefnogaeth a sefydlogrwydd.
- Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dechrau derbyn gofal neu'n newid lleoliad, mae angen i ddarparwyr gofal cymdeithasol ac addysg plant gyfathrebu'n gynnar ac yn effeithiol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cymorth effeithiol a phrydlon. Dylai'r cymorth hwn weddu i'r plentyn neu'r person ifanc unigol heb dynnu sylw ato na'i gywilyddio, sef rhywbeth, ym marn nifer o'n cyfranogwyr, a oedd yn amharu ar eu gallu i gymryd rhan mewn addysg.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant





Cefndir

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod canlyniadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn sylweddol is na'u cyfoedion nad ydynt yn derbyn gofal. Mae'r bwlch hwn mewn cyrhaeddiad yn lledu ar draws pob Cyfnod Sylfaen. Yn 2015 llwyddodd 18% o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru i gael 5 TGAU gradd A*-C neu gyfwerth (gan gynnwys TGAU gradd A*-C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg), o'u cymharu â 58% o'r holl blant (Llywodraeth Cymru 2016). Ymhellach, mae'r ffigurau ar gyfer y rhai a oedd yn gadael gofal nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru yn arbennig o uchel: 48% o'i gymharu ag 11.5% o gyfanswm y rhai sy'n gadael ysgol (Swyddfa Archwilio Cymru 2012).

Mae gwaith ymchwil blaenorol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac addysg wedi nodi nifer o faterion allweddol sy'n eu llesteirio, gan gynnwys:

- ansefydlogrwydd lleoliadau ac ysgolion,
- diffyg cymorth gydag addysg,
- diffyg cymorth gydag iechyd a lles meddwl neu iechyd a lles corfforol,
- golwg besimistaidd ar eu potensial addysgol
- cyfathrebu aneffeithiol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg

Yr astudiaeth ymchwil

Ym mis Ionawr 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac addysg. Cynhaliwyd yr ymchwil gan CASCADE dros gyfnod o chwe mis. Astudiaeth dulliau cymysg oedd hon, wedi ei chynnal dros ddau gyfnod gwahanol.

Roedd Cyfnod Un yn cynnwys adolygiad ystadegol ac adolygiad llenyddiaeth i helpu i ddeall rhagor am gyflawniad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac adolygiad systematig a oedd yn archwilio effeithiolrwydd ymyraethau addysgol gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Defnyddiwyd dulliau ansoddol yng Nghyfnod Dau i archwilio profiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o addysg, eu dyheadau, a'u barn ar newidiadau yn y dyfodol ac ymyraethau llwyddiannus. Cymerodd cyfanswm o 39 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 16 oed sy'n derbyn gofal ran mewn mewn cyfres o ddiwrnodau gweithgareddau pryd y cynhaliwyd cyfweiliadau unigol trwy ddefnyddio dulliau creadigol. Cymerodd 26 o bobl ifanc eraill a oedd yn derbyn gofal ran mewn chwe grŵp ffocws. Hwyluswyd y grwpiau ffocws hyn gan ymchwilwyr a oedd yn gyfoedion, gyda chefnogaeth un o ymchwilwyr CASCADE. Roedd gan yr ymchwilwyr a oedd yn gyfoedion profiad o dderbyn gofal eu hunain ac roeddent wedi eu hyfforddi i hwyluso grwpiau ffocws ac mewn dulliau ymchwil gan ymchwilwyr CASCADE. Yn ogystal, cymerodd dau a oedd wedi gadael gofal ac a oedd mewn addysg uwch ran mewn cyfweiliadau ffôn.

Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar rai o'r canfyddiadau o Gyfnod Dau yr ymchwil, gan archwilio profiadau a dyheadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Bydd briffio ychwanegol yn canolbwyntio ar ganfyddiadau adolygiad systematig a barn pobl ifanc am yr ymyraethau a nodwyd gan yr adolygiad hwnnw.

Canfyddiadau allweddol: dyheadau

Trafododd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil ystod eang o ddyheadau, uchelgeisiau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn aml mynegwyd hyn ynghylch swyddi neu yrfaedd yr oeddent yn gyfarwydd â hwy, yr oedd perthnasau neu ffrindiau yn eu gwneud neu a oedd yn gysylltiedig â'u hobiau. Er enghraifft, wrth sôn am ei swydd ddefnyddol cyfunodd un bachgen 12 oed ei ddiddordebau personol a gwybodaeth am swydd yr oedd aelodau o'r teulu wedi ei gwneud:

"Hoffwn i fod yn bensaer ... am fy mod i'n hoffi celf ac am mai adeiladwyr yw'r rhan fwyaf o'm teulu".

Thema arall ynghylch dyheadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ar gyfer y dyfodol, oedd yr awydd i helpu pobl. Roedd nifer o gyfranogwyr eisiau gwneud rhywbeth a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl neu wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas trwy swydd neu yrfa yn y dyfodol:

"Hoffwn i fod yn ddydd tân, rhag ofn bod tanau o gwmpas y lle. Gallwn i fynd yno i helpu, ac achub pobl mewn gwirionedd a bod yn arwr go iawn" (Bachgen, 11 oed)

Weithiau, roedd yr awydd i helpu eraill wedi ei symbylu gan anawsterau'r plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn dilyn eu profiad o dderbyn gofal eu hunain, a'u hymroddiad i atal pethau tebyg rhag digwydd i blant a phobl ifanc eraill a fydd yn derbyn gofal yn y dyfodol:

"Dwi eisiau gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal pan fydda i'n hŷn am fy mod i'n gwybod sut brofiad yw hynny gan fy mod i wedi bod drwyddo am y rhan fwyaf o fy mywyd. Felly gallaf wir fod yn un o'r bobl hynny sy'n gallu dweud 'Dwi'n deall' a deall o ddirif" (Merch, grŵp 16+)

Fodd bynnag, roedd rhai o'n cyfranogwyr yn llai abl i fynegi eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol yn glir. Mae gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal lai o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd na llawer o blant a phobl ifanc eraill ac efallai fod hyn wedi bod yn rhwystr i'r trafodaethau am yrfaedd neu gynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol. Yn hytrach na siarad am hynny, canolbwyntiodd rhai cyfranogwyr ar ddychmygu eu bywyd teuluol yn y dyfodol, gan gynnwys anifeiliaid anwes a allai fod ganddynt neu'r tai y gallent fod yn byw ynddynt. Er enghraifft, mae'r person ifanc canlynol yn nodi'n glir bwysigrwydd y teulu, a sefydlogrwydd iddo ef yn y dyfodol.:

"Yr hyn a hoffwn yw rhywun i fod gyda mi am byth pan fydda i'n hŷn... Rhywun a fydd yn gofalu amdana i. A hefyd rwyf eisiau teulu. Dyna i gyd. Fy ngwraig i a'm plant i" (Bachgen, 14 oed)

Roedd oedolion arwyddocaol yn chwarae rhan bwysig wrth naill ai helpu neu rwystro uchelgais i gael ei gwireddu. Dywedodd rhai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal eu bod wedi cael chefnogaeth gref a phriodol a oedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt:



"Roedd ganddi hi [gofalwr maeth] lawer o ffydd ynof fi a dywedodd hi wrthyf fi bob amser y gallwn lwyddo [i fynd i'r brifysgol]" (Merch, 21 oed)

Er hynny, roedd eraill yn sôn am ddisgwyliadau isel a fynegwyd gan ofalwyr, athrawon a gweithwyr cymdeithasol ac roedd teimlad nad oedd eu potensial addysgol yn cael ei gymryd o ddifrif na'i gefnogi:

"Roedd rhai gofalwyr maeth a rhai pobl a oedd yn ymwneud â'r system ofal yn dweud 'o, dyw pobl sy'n derbyn gofal ddim yn mynd i addysg uwch' a'r math yna o beth" (Menyw, 24 oed)

O ran gwreiddu dyheadau, roedd cefnogaeth oedolion arwyddocaol yn bwysig yn yr un modd â llwybrau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ddatblygu eu buddiannau a'u huchelgeisiau. Nodwyd bod pob un o'r ffactorau hyn, yn ogystal â chael eu gwobrwyo am eu cyflawniadau, yn symbyliadau allweddol.

Canfyddiadau allweddol: profiadau

Un o'r themâu allweddol a ddaeth o'n cyfweiliadau a'n grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc oedd teimlad o fod naill ai'r un fath, neu'n wahanol i blant nad ydynt yn derbyn gofal.

Soniodd llawer o'r plant iau, yn enwedig y rhai mewn ysgolion cynradd am eu profiadau addysgol mewn modd y byddem yn ei ddisgwyl gan unrhyw grŵp o blant mewn unrhyw ysgol. Er enghraifft, disgrifiodd merch deng mlwydd oed yr ysgol fel bod yn *"wych, gwych, supercalifragilisticexpialidocious"* tra credai bachgen wyth oed fod ysgol yn *"waith, gwaith a gwaith. Mae'r ysgol braidd yn ddiiflas"*. Yn gyffredinol, disgrifiodd y plant iau eu haddysg fel gemau amser egwyl, ffrindiau gorau, hoff bynciau, hoffi athrawon caredig a ddim yn hoffi athrawon llym. Nid oedd fawr o sôn am iaith gweithwyr cymdeithasol, adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, na derbyn gofal yn yr adroddiadau hyn.

Fodd bynnag, dangosodd plant hŷn a phobl ifanc fwy o ymwybyddiaeth o'u statws o fod yn 'Blant sy'n Derbyn Gofal' a'r dehongliadau negyddol neu'r stigma a ddeilliai o'r statws. Teimlai nifer ohonynt eu bod wedi eu neilltuo, yn ddiameddiffyn neu eu bod yn wahanol oherwydd sut yr oeddent yn cael eu trin gan weithwyr proffesiynol megis gweithwyr cymdeithasol ac athrawon:

"Cyn gynted ag y dechreuais i dderbyn gofal, ac yna mynd yn ôl i'r ysgol dechreuodd fy athrawon, y rhan fwyaf ohonyn nhw, fy nhrin i'n hollol wahanol, oherwydd fy mod i'n derbyn gofal, symudon nhw fi i lawr i ddosbarth is, rhoddon nhw fi mewn dosbarth cymorth arbennig fe wnaethon nhw roi i mi - rhoddon nhw fi mewn grwpiau cymorth" (Menyw, grŵp 16+)

Thema arall oedd nad oedd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cyfleoedd mewn addysg. Roedd newid lleoliadau ac ysgolion yn arwain at oedi cyn dechrau mewn ysgol newydd, nodwyd bod apwyntiadau a chyfarfodydd sy'n digwydd yn ystod amser ysgol i gyd yn cyfrannu at wneud llwyddiant addysgol yn anodd:

"Symudais i o Gymru i Loegr ac roedd, fel petai, yn ystod y flwyddyn bontio honno, fel petai, fel mod i allan o addysg, felly roeddwn i'n chwarae gêm o ddal i fyny, drwy'r amser, fel petai, yr holl ffordd trwy'r ysgol nes i mi adael, roeddwn i'n trio dal i fyny drwy'r amser" (Dyng ifanc, grŵp 16+)

Roedd pwysigrwydd ffrindiau a chyfoedion yn glir yn nifer o hanesion y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn aml cyfeiriwyd atynt yn gadarnhaol, am roi cymorth, sefydlogrwydd a syniad o berthyn a theimlo'n 'normal'. Fodd bynnag, pan oedd gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal broblemau gwneud neu gynnal perthnasoedd, neu eu bod wedi cael eu bwlio, roedd hyn yn ychwanegu at y teimlad o fod wedi eu hynysu ac o fod yn wahanol:

"Rydych chi bob amser yn trio, fel petai, gwneud ffrindiau newydd ... rydych chi bob amser yn ffraeo, fel petai, gallech chi ffraeo â nhw o hyd, wedyn am nad oes gennych chi yr un hanes gyda'ch gilydd, mae'n rhaid i chi ddechrau eto" (Menyw, grŵp 16+)

Yn yr un modd â dyheadau, y thema derfynol oedd y gallai unigolion a gweithredoedd unigol wneud gwahaniaeth enfawr o ran gwneud i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal deimlo bod ganddynt gefnogaeth a thrwy hynny, cyfrannu at eu llwyddiant addysgol. Trafododd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gefnogaeth yn aml, nid o ran ymyrraeth neu raglen benodol, ond drwy weithgareddau bach pob dydd gofalwyr, athrawon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:

"Felly edrychodd hi arno fe gyda fi a dywedodd hi, wel galla i wneud hwn â llaw, felly dyma hi'n eistedd gyda fi ac yn fy helpu i wneud fy ngwaith cartref... Felly eisteddodd yr aelod honno o'r staff gyda mi a dweud y gallem ni wneud fy ngwaith cartref yn y fan a'r lle" (Merch, grŵp 16+)

Ar y cyfan, roedd profiadau cadarnhaol o addysg yn gysylltiedig â theimlo'n gynwysedig a heb gael eu neilltuo, gan gael cymorth priodol gan y rhai hynny a oedd yn barod ac yn abl i helpu gydag addysg a heb golli amser addysg oherwydd newid lleoliadau neu gyfarfodydd yn ystod amser ysgol.

Ble nesaf?

Daeth yr adroddiad ymchwil terfynol i ben gyda 17 o argymhellion. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y strategaeth, 'Gwella uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'. Cafodd y strategaeth hon ei llywio gan yr astudiaeth ymchwil a chynhwyswyd nifer o'r argymhellion allweddol. I weld strategaeth Llywodraeth Cymru ar-lein ewch i:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?lang=cy>.

Mae canfyddiadau'r ymchwil hefyd yn cael eu dosbarthu mewn nifer o ddiwyddiadau i ymarferwyr, gofalwyr maeth, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill drwy gydol 2016. Cysylltwch â CASCADE am ragor o wybodaeth cascaed@cardiff.ac.uk.

Cyfeiriadau

Swyddfa Archwilio Cymru. 2012.

Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal: **22 Awst 2012. Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru. Ar gael yn** <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cyrhaeddiad-addysgol-plant-phobl-ifanc-syn-derbyn-gofal>

Welsh Government. 2016. *First Release. Wales Children in Need Census, 2015*. SDR 32/2016. Cardiff. Welsh Government.

Nodiadau

Mae'r adroddiad ymchwil llawn, Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A., Evans, R. and Andrews, D. 2015. *Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael ar-lein yma: <http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-educational-experiences-opinions-attainment-achievement-aspirations-looked-after-children-wales/?lang=cy>

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gomisiynu'r gwaith ymchwil hwn (Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 62/2015). Rydym hefyd yn ddiolchgar i Rwydwaith Maethu Cymru, Voices from Care Cymru a Spice Innovations a oedd yn bartneriaid yn yr ymchwil. Diolch yn arbennig i'r holl blant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil.

Yn cyd-fynd â'r adroddiad, mae allbynnau o'r ymchwil yn cynnwys cyfres o ffilmiau byr, caneuon a phosteri, wedi eu datblygu mewn partneriaeth â Hummingbird Audio Landscaping, Cat & Mouse a Ministry of Life, ac mae pob un o'r rhain ar gael ar wefan CASCADE: <http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/looked-after-children-and-education/>



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant

© Crown Copyright 2016

24 March 2016

